Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-15-19 PTN1

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref/KS/0336

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2019

Annwyl Llŷr

Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

Gwnes fynychu cyfarfod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 13 Mawrth 2019 er mwyn cyflwyno tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor ynghylch 'Datblygiad Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol'. Yn ystod y sesiwn honno gwnes i a'm swyddogion ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ynghylch y Papur Gwyn '*Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'.* Rwy'n ysgrifennu atoch yn awr er mwyn rhannu'r un wybodaeth â chi, o ystyried cylch gwaith eich Pwyllgor a'ch diddordeb yn yr elfennau ariannol o'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2018, yn nodi y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n ceisio pennu costau, manteision ac effeithiau'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019. Daeth yn amlwg yn ystod gwaith datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fodd bynnag, na fyddai ymgynghori ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystod y cyfnod hwn mor fuddiol â'r disgwyl. O'r herwydd penderfynwyd peidio â chyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ar y cyd â'r Papur Gwyn at ddiben ymgynghori.

Nod y cynigion yn y Papur Gwyn yw sefydlu dulliau deddfwriaethol a fydd yn galluogi'r awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd, a chyda gweithredwyr bysiau, er mwyn ymateb mewn ffordd hyblyg i anghenion cymunedau lleol. Gallai goblygiadau'r ddeddfwriaeth o safbwynt costau amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar ba un o'r opsiynau y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu ei ddefnyddio ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau a'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

heriau o fewn eu cymunedau. O'r herwydd mae'n anodd ar hyn o bryd i bennu asesiad ystyrlon o effaith yr holl gyfuniadau posibl lle y gallai'r dulliau gweithredu hyn gael eu defnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn datblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cadarn. Credaf, fodd bynnag, y dylai ymgysylltu o'r fath fod yn seiliedig ar wybodaeth glir a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i randdeiliaid ymateb yn briodol. Byddaf felly'n cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn yr haf, ar ôl i'm swyddogion ddadansoddi'r ymatebion i'r Papur Gwyn.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth o ddefnydd i aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi, a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport